PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR RHAGLEN, CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION

DYDD MAWRTH, 19 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Merry, Taylor, Weaver a/ac Williams |

1 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

3 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Rhys Taylor ddiddordeb personol ond nid un a fyddai'n rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad i Aelodau parthed y cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd 9. Arhosodd y Cynghorydd Taylor yn y cyfarfod yn ystod yr eitem.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

5 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 - Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd i ddod yn gyflogai i'r awdurdod;

Paragraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN - CYNLLUNIO TREFNIDIAETH YSGOLION

Cynullwyd y Pwyllgor Penodiadau i ystyried y rhestr hir o ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes drosolwg o rôl a chyfrifoldebau'r swydd hon a'r cymwyseddau allweddol sy'n ofynnol gan ddeiliad y swydd.

Adolygodd y Pwyllgor y 22 o geisiadau a dderbyniwyd ac ystyriodd sut yr oedd pob un o'r ymgeiswyr yn bodloni'r cymwyseddau hanfodol o'r Fframwaith Cymwyseddau Ymddygiadol a'r Proffil Rôl, a nodwyd yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i fynd ymlaen am asesiad.

PENDERFYNWYD – bod ymgeiswyr 6, 8, 20, 21 a 22 yn cael eu derbyn i'w hasesu ar 15 Mawrth 2019.

## 7 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD LLUN 25 MAWRTH 2019 AM 2.00 YP

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05 pm